



Ysgol Pen Barras

Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2020-2021

Governors' Annual Report To Parents



GAIR GAN Y CADEIRYDD

Heriol, yw'r unig air a all ddisgrifio'r flwyddyn academaidd ddiwethaf i blant, rhieni a staff! Hoffwn dalu teyrnged i chi i gyd am y gwytnwch rydych chi wedi'i ddangos fel rhieni yn ystod yr amgylchiadau anodd, gyda'n gilydd rydyn ni wedi cyflwyno addysg i'r plant yn yr amseroedd anoddaf. Heb ymrwymiad plant, rhieni a staff ni fyddem erioed wedi dod allan yr ochr arall i Covid. Rydym i gyd wedi wynebu cyfnod clo, addysg gartref, aros mewn swigod, amseroedd ysgol newydd, systemau un ffordd, profion llif ochrol a PCR ac mae nifer wedi profi'n bositif - foddy bynnag mae'r agwedd feddyliol gadarnhaol gan bawb wedi bod yn rhagorol.

Er gwaetha'r heriau, hoffwn gyflwyno, ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr, ein Hadroddiad Blynnyddol i rieni sy'n amlinellu gwybodaeth am yr ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2020 -2021. Fel rhan-ddeiliaid yn yr ysgol mae'n bwysig eich bod chi'n cael eich hysbysu am ddigwyddiadau, a'n dal fel llywodraethwyr yn atebol am addysg eich plentyn. Hoffwn ddiolch i'r staff am eu holl waith caled a'u hymrwymiad, ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth. Mae cyfranogiad rhieni yn hanfodol i sicrhau llwyddiant plentyn yn yr ysgol ac mae'r llywodraethwyr yn ddiolchgar ichi am hyn. Mae'r flwyddyn academaidd wedi bod yn heriol iawn ac mae'r staff wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu cwricwlwm cytbwys a sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gyflawni ei botensial a llwyddo mewn awyrgylch hapus, agored a gofalgar ac wedi'i addasu i fyd dysgu ar-lein yn dda. Cyn y cyfnod clo, roedd y plant yn mwynhau gwrandio ar westeon ac ymwelwyr â'r ysgol, a chawsant gyfleoedd i weithio yn y gymuned leol, gan fynychu ystod eang o deithiau addysgol ac ymwelliadau, gan ganiatáu iddynt fwynhau profiadau diddorol a chyffrous. Yn anffodus, prin oedd y cyfleoedd flwyddyn ddiwethaf i blant brofi'r bwrlwm arferol, ond mawr obeithiwn y cawn ddychwelyd yn fuan i'r math o profiadau yr ydym mor falch o gyflwyno i'r plant. Hoffwn gloi trwy ganmol ymdrechion y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith caled dan amgylchiadau anodd iawn, ac mae eu hymdrehigion yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae llywodraethwyr yr ysgol wedi ymrwymo i'n rôl a'n cyfrifoldebau ac yn falch o weithio gyda staff a rhieni er mwyn cynnal safonau uchel a chynnig profiadau a gofal o'r radd flaenaf i blant. Hoffwn ichi gymryd amser i ddarllen yr adroddiad a myfyrio ar lwyddiant academaidd ac uchafbwyntiau ein hysgol yn ystod 2020-21.

A WORD BY THE CHAIR OF GOVERNORS

Challenging, is the only word that can describe the last academic year for children, parents and staff! I would like to pay tribute to you all for the resilience you have shown as parents during difficult circumstances, together we have delivered education to the children in the most difficult times. Without the commitment of children, parents and staff we would have never come out the other side of Covid. Together we have all faced lock down, home schooling, bubbles, staggered school times, one way systems, lateral flow test, PCR test and many have tested positive- however the positive mental attitude by all has been outstanding.

Despite our challenges, I present to parents, on behalf of the Board of Governors, our Annual Report which outlines information regarding the school during the 2021-2021 academic year. As stakeholders in the school it is important for you to be informed of events, and to hold us as governors accountable for your child's education. I would like to thank the staff for all their hard work and commitment, and to you as parents for your support. The involvement of parents is vital to ensure a child's success at school and the governors are thankful to you for this. The academic year has been very challenging, and the staff have worked extremely hard to provide a balanced curriculum and ensure that all pupils have the opportunity to achieve their potential and succeed in a happy, open and caring atmosphere and adapted well to the world of online learning. Prior to lockdown, the children enjoyed listening to guests and visitors to the school, and were given opportunities to work in the local community, attending a wide range of educational trips and visit, allowing them to enjoy interesting and exciting experiences. Unfortunately, last year there were few opportunities for children to experience the usual buzz, but we hope that we will soon return to the kind of experiences we are so proud to present to the children. I would like to conclude by praising the efforts of the Parents and Teachers Association for all their hard work in very difficult circumstances, and their efforts are greatly appreciated. The school's governors are committed to our role and responsibilities and are proud to work with staff and parents in order to maintain high standards and offer children's first class experiences and care. I would like you to take time to read the report and reflect on the academic success and the highlights of our school during 2020-2021.

Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors)

CYFARFOD / MEETING

Os ydych yn dymuno i ni gynnal cyfarfod rhithiol i drafod materion yn ymwneud â'r adroddiad hwn, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r ysgol erbyn ddydd Gwener, Rhagfyr 13eg. Os bydd digon o rieni yn dymuno cynnal cyfarfod byddwn yn eich hysbysu o'r amser a'r dyddiad.

If parents would like us to hold a virtual meeting to discuss aspects of this report, please contact the school to express this wish by Friday, December 13th. If enough parents request a meeting then we will inform you of the time and place.

Y CORFF LLYWODRAETHOL PRESENNOL / THE CURRENT GOVERNING BODY

		Cyfeiriad e-bost / e-mail address
Cadeirydd/ Chair	Huw Hilditch-Roberts	Huw.Hilditch-Roberts @denbighshire.gov.uk
Clerc / Clerk	-	pen.barras@sirddinbych .gov.uk

Llywodraethwr Governor	Cynrychioli Representing	Dyddiad Dechrau Start Date	Dyddiad Gorffen End Date
Huw Hilditch-Roberts	AALI /LA	29/01/2010	05/01/2022
Huw Gwyn	AALI /LA	23/5/2018	23/5/2022
Marc Lloyd Jones	Pennaeth / Headteacher	01/09/2011	-
Menna Jones	Cyngor Tref / Town Council	11/01/2019	10/10/2022
Sharon Jones	Cyfetholedig	11/12/2015	11/12/2021
Gareth Humphreys	Cyfetholedig	01/12/2014	01/12/2021
Hywel Richards	Cyfetholedig	01/12/2014	01/12/2021
Ian Roberts	Cyfetholedig	10/06/2014	09/06/2022
Mrs Holly Evans	Rhiant / Parent	09/11/2020	09/11/2024
Mr Robin Davies	Rhiant / Parent	09/11/2020	09/11/2024
Ceri Ranson	Rhiant / Parent	25/02/2016	24/02/2024
Sian Fenlon	Rhiant / Parent	09/11/2020	09/11/2024
Ceri Roberts	Staff	24/11/17	24/11/21
Ffion Hughes	Athrawon	12/04/2021	-

CYLLID / FINANCES

Gweler atodiad 1 sy'n amlinellu datganiad llawn o gyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau y profiadau addysgol gorau i'r disgylion ac i sicrhau adnoddau addas ar eu cyfer. Cryfder y trefniant presennol yw sicrhau ein bod yn medru cynnal dosbarthiadau bach ar gyfer pob blwyddyn gyda'r cyllid sydd ar gael. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid ychwanegol i dargedu llythrennedd a rhifedd. Mae'r grant Amdifadedd Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn diwallu anghenion disgylion penodol, trefnwyd adnoddau a staff ychwanegol i gefnogi a chodi safonau yn y meysydd yma. Rydym yn ddiolchgar iawn i Gyfeillion yr ysgol ac i Clwb Pen Barras am brynu nifer o adnoddau i'r ysgol.

Yn 2020-2021 rhoddwyd i Ysgol Pen Barras ddyraniad Grant Amddifadedd disgylion o £14,950.00 Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Weinyddu rhaglenni ymyrraeth
- Archebu adnoddau ADY

See appendix 1 outlining the full statement of the school budget. The school's budget was used to ensure the best educational experiences for pupils and to ensure appropriate resources for them. The strength of the current arrangement is to ensure that we can maintain small classes for each year with the funds available. The school will use the additional funding to target literacy and numeracy. The Social Deprivation Grant is used purposefully to meet the specific needs of pupils, additional resources and staff were organised to support and raise standards in these areas. We are very grateful to the PTA and to Clwb Pen Barras for purchasing a wide range of resources for the school.

In 2020-2021 Ysgol Pen Barras received a grant of £14,950.00 through the Pupil Deprivation Grant. This was spent on:

- Intervention programmes and support
- SEN resources

PRESENOLDEB / ATTENDANCE 2020-2021

Oherwydd y pandemig, nid yw'n ddisgwylledig cyflwyno data a thargedau am bresenoldeb plant.

Disgwylir i'r rhieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sydd bosibl i egluro absenoldeb eu plentyn. Gellir gwneud hyn dros y ffôn, nodyn neu neges gan aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog. Os na cheir eglurhad, yna nodir yr absenoldeb fel un di-awdurdod. Bydd pob absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol yn cael ei ystyried fel absenoldeb heb awdurdod (ar wahan i eithriadau prin).

Due to the pandemic, it is not a requirement to present pupil attendance data and targets.

Parents are expected to contact the school as soon as possible to give a reason for an absence. This can be done by phone, through a note or a message sent through a friend or family member. If no explanation has been received, then the school will register that child as an unauthorised absence. Any family holidays taken during term time are unauthorised (apart from exceptional cases).

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL / ADDITIONAL LEARNING NEEDS

Miss Anwen Hughes sy'n gyfrifol am gyd-lynnu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol sy'n cynnwys trafod yn rheolaidd gydag athrawon dosbarth, staff cefnogi a rhieni. Mae gweithgareddau penodol a Chynlluniau Addysgol Unigol yn cael eu cynllunio ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae staff cefnogi yn y dosbarth yn gweithio'n agos iawn gydag unigolion i gyflawni eu rhagleni gwaith. Rydym yn cyd-weithio gydag asiantaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol allanol i sicrhau'r cymorth priodol, ac mae rhai plant wedi elwa o gael sylw un i un. Mae'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn weithredol yn yr ysgol.

Miss Anwen Hughes is responsible for Additional Learning Needs provision at school which involves regular discussions with teachers, support staff and parents. Specific tasks and Individual Educational Plans are given to children with Additional Learning Needs and teachers and support staff work hard to implement these plans as the children strive to succeed with his/her targets. We work with relevant outside agencies to ensure appropriate support and some pupils receive one-to-one support. We fully comply to the Additional Learning Needs Code.

GWAHARDDIADAU / EXCLUSIONS

Ni waharddyd unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn 2020-2021.

No pupils were excluded in the year 2020-2021.

TREFNIADAU A CHYFLEUSTERAU TOILED / ARRANGEMENTS AND TOILET FACILITIES

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgylion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol ac rydym yn cydweithio gyda'r awdurdod i geisio gwella cyflwr y cyfleusterau

The school has an adequate number of toilets for the pupils who are registered at school. The facilities are cleaned daily by the Education Authority's Cleaning Services.

POLISIâu'R YSGOL / SCHOOL POLICIES

Cafodd nifer o bolisiau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac mae copïau ohonynt ar gael yn yr ysgol.

A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request.

YMDRIN Â CHWYNION / DEALING WITH COMPLAINTS

Mae gan yr ysgol ethos agored gyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cŵyn am agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac os na chewch eich bodloni, cysylltwchu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os yw'r mater dal heb ei datrys cysylltwch â'r Adran Addysg yn y Cyngor Sir.

The school has an open and friendly ethos and you are welcome to arrange to meet the Head teacher to discuss any concerns. If you have a complaint about any aspect of school work, the first point of contact should be the Head teacher, and if you are not satisfied, you should contact the Chair of Governors and then, if the matter is unresolved, the Local Authority.

LLAWLYFR YR YSGOL / SCHOOL PROSPECTUS

Rydym wrthi'n adolygu a diwygio llawlyfr yr ysgol yn unol â gofynion statudol.

The school prospectus is being revised in accordance with the legislative requirements.

DIOGELWCH / SAFETY

Mae'r ysgol yn sicrhau diogelwch plant, staff ac ymwelwyr i'r ysgol drwy weithredu'r polisi lechyd a Diogelwch.

The school ensures the safety and security of all stakeholders by adhering to the school's Health and Safety policy.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG AC ATHRONIAETH / USE OF THE WELSH LANGUAGE AND IDEOLOGY

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac amcenir at feithrin dwyieithrwydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2. Mae Cymreictod a thraddodiadau Cymreig yn cael sylw blaenllaw yn yr ysgol. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr arian y Siarter laith.

Welsh is the official language of the school and we aim to establish bilingualism throughout Key Stage 2. The school places a great deal of emphasis on encouraging all things Welsh and an awareness of Welsh traditions. The school obtained a Welsh Language Charter silver award.

CANLYNIADAU ASESIADAU STATUDOL / STATUTORY ASSESSMENT RESULTS

Oherwydd y pandemig, nid yw'n ddisgwylidig cyflwyno canlyniadau asesiadau statudol a thargedau.

Due to the pandemic, it is not a requirement to present pupil assessment results and targets.

AROLWG ESTYN / ESTYN INSPECTION

Cafwyd arolwg lwyddiannus iawn gan Estyn ym mis Mawrth 2019. Barnwyd bod y pum maes arolygu ym Mhen Barras yn Rhagorol. Cewch ddarllen yr adroddiad yn ei chyfarorwydd ar wefan Estyn. Nodwyd un argymhelliaid, ac mae'r ysgol wedi nodi yng Nghynllun Datblygu'r ysgol sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhelliaid.

The school had a very successful Estyn Inspection in March 2019. All five inspection areas deemed to be Excellent. The full inspection report can be read on the Estyn website. One recommendation was noted and the school has outlined within its Development how this recommendation will be addressed.

CWRICWLWM / CURRICULUM

Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm llawn ac eang i'r holl ddisgyblion yn ddiwahan ac mae sgiliau'r plant yn datblygu'n dda ymhob maes. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu er mwyn codi safonau.

The school offers a full and balanced curriculum to all children, who in turn develop their skills accordingly and to a high standard. A range of teaching methods are used to raise standards.

YMWELIADAU ADDYSGOL A'R GYMUNED LEOL / EDUCATIONAL VISITS AND THE LOCAL COMMUNITY

Oherwydd cyfyngiadau COVID, prin iawn oedd y cyfleoedd i blant fynd ar ymweliadau nac ychwaith i ymwelwyr ddod i'r ysgol.

Due to COVID restrictions, very few educational visits and visitors to school were permitted.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL AC ALLGYRSIOL / ADDITIONAL AND EXTRA-CURRICULA ACTIVITIES

Gohiriwyd holl gystadleuthau a gweithgareddau allgyrsiol oherwydd y pandemig.

Because of the pandemic, all sporting competitions and extra-curricula activities were canceled.

Amseroedd yr Ysgol / School Hours

	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1 a 2	Cyfnod Allweddol 2
Cychwyn Ysgol	8:50	8:50	8:50	9:00
Amser Chwarae	10:00 – 10:15	10:00 – 10:15	10:30-10:45	10:45-11:00
Amser Cinio		11:45 – 12:45	11:45 – 12:45	12:30 – 1:30
Amser Chwarae		2:15 – 2:30	2:15 – 2:30	
Mynd adref	11.20	3:05	3:05	3:15

	Nursery	Reception	Years 1 & 2	Key Stage 2
Start	8:50	8:50	8:50	9:00
Morning Break	10:00 – 10:15	10:00 – 10:15	10:30-10:45	10:45-11:00
Lunch Time		11:45 – 12:45	11:45 – 12:45	12:30 – 1:30
Afternoon Break		2:15 – 2:30	2:15 – 2:30	
End	11.20	3:05	3:05	3:15

Derbynir plant ar y buarth o 08:45ymlaen. Gofynnir i rieni drosglwyddo eu plant i ofal y staff wrth y mynedfeydd i'r buarth.

Children are received on the yard from 08:45. Parents are requested to hand over their children into the care of the staff at the school yard entrances.

DYDDIADAU TYMHORAU 2021-2022

Tymor yr Hydref 1 - 1 Medi 2021 i 22 Hydref 2021
Hanner tymor yr Hydref - 25 Hydref 2021 i 29 Hydref 2021
Tymor yr Hydref 2 - 1 Tachwedd 2021 i 22 Rhagfyr 2021
Gwyliau'r Nadolig - 23 Rhagfyr 2021 i 5 Ionawr 2022

Tymor y Gwanwyn 1- 8 Ionawr 2022 i 18 Chwefror 2022
Hanner tymor y Gwanwyn -21 Chwefror 2022 i 25 Chwefror 2022
Tymor y Gwanwyn 2 - 28 Chwefror 2022 i 8 Ebrill 2022
Gwyliau'r Pasg - 11 Ebrill 2022 i 22 Ebrill 2022

Tymor yr Haf 1 - 26 Ebrill 2022 i 27 Mai 2022
Calan Mai - 2 Mai 2022
Hanner tymor yr Haf -30 Mai 2022 i 3 Mehefin 2022
Tymor yr Haf 2 -6 Mehefin 2022 i 20 Gorffennaf 2022

2021-2022 TERM DATES.

Autumn term 1 - 1 September 2021 to 22 October 2021
Autumn half term holiday - 25 October 2021 to 29 October 2021
Autumn term 2 -1 November 2021 to 22 December 2021
Christmas Holiday - 23 December 2021 to 5 January 2022

Spring term 1 - 8 January 2022 to 18 February 2022
Spring half term holiday - 21 February 2022 to 25 February 2022
Spring term 2 - 28 February 2022 to 8 April 2022
Easter holiday - 11 April 2022 to 22 April 2022

Summer term 1 - 26 April 2022 to 27 May 2022
Early May bank holiday - 2 May 2022
Summer half term - 30 May 2022 to 3 June 2022
Summer term 2 - 6 June 2022 to 20 July 2022

Atodiad 1 / Appendix 1

CYLLID / FINANCE

CYNGOR SIR DDINBYCH - DATGANIAD BLYNYDDOL CYFRIF ARIANNOL			
YSGOL PEN BARRAS			16.07.21
CYLLIDEB YSGOL DIRPRWYEDIG		2020/2021	
CATEGORI	CYLLIDEB FLYNYDDOL	CYFANSWM GWARIANT	DANWARIANT/ (GORWARIANT)
GWEDDILL WEDI'I DDWYN YMLAEN	(10,072)	(10,072)	0
CYFLOGAU	952,009	915,588	36,421
ADEILADAU	63,997	58,238	5,759
CLUDIANT	264	0	264
NWYDDAU & GWASANAETHAU (GAN GYNNWYS LWFANS Y PEN)	61,707	64,947	(3,240)
PRYDAU BWYD STAFF, ARIANNU TEG A CHERDD PERIPATETIG	29,347	29,199	148
INCWM (HURIO, LLOG, CERDD PERIPATETIG A GRANTIAU)	(56,189)	(127,299)	71,110
WRTH GEFN	17,172	0	17,172
CYFANSWM YSGOL	1,058,235	930,601	127,634

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL - ANNUAL STATEMENT OF FINANCIAL ACCOUNT			
YSGOL PEN BARRAS			16.07.21
DELEGATED SCHOOL BUDGET		2020/2021	
CATEGORY	ANNUAL BUDGET	TOTAL EXPENDITURE	UNDERSPEND/ (OVERSPEND)
BALANCE B/FWD	(10,072)	(10,072)	0
EMPLOYEES	952,009	915,588	36,421
PREMISES	63,997	58,238	5,759
TRAVELLING EXPENSES	264	0	264
SUPPLIES & SERVICES (INCLUDING CAPITATION)	61,707	64,947	(3,240)
ADULT MEALS, FAIR FUNDING & PERIPATETIC MUSIC	29,347	29,199	148
INCOME (LETTINGS, INTEREST PERIPATETIC MUSIC AND GRANTS)	(56,189)	(127,299)	71,110
CONTINGENCY	17,172	0	17,172
SCHOOL TOTAL	1,058,235	930,601	127,634